

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DYDDIAD	12 CHWFROR 2019
TEITL YR ADRODDIAD	CALENDR PWYLLGORAU 2019/20
PWRPAS	YSTYRIED DRAFFT CALENDR PWYLLGORAU 2019/20
AWDUR	GERAINT OWEN PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

1. CEFNDIR

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i roi rhaghysbysiad o raglen dyddiadau cyfarfodydd ei bwyllgorau am y flwyddyn i ddod. Mae'r calendar drafft hwn wedi ei lunio gyda'r bwriad o geisio sicrhau fod pawb yn ymwybodol o ddyddiadau pwyllgorau rhag-blaen.

Er mwyn cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol, bu ymgynghori, yn unol â'r arfer ar fersiwn drafft calendr Pwyllgorau 2019/20 y Cyngor gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

2. CALENDR PWYLLGORAU 2019/20

Cyflwynir trosodd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019/20. Dyma'r dyddiadau yr ydym yn rhaglennu ar hyn o bryd, **gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

3. HYFFORDDIANT AELODAU

Mae'n bosib y bydd rhai dyddiadau hyfforddiant yn gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. I ddod dros yr anhawster y bydd aelodau yn methu mynychu sesiynau hyfforddiant oherwydd y broblem uchod, ceisiwyd gosod mwy nag un cynnig ar gyfer y sesiynau hyfforddiant penodol hynny.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor hwn gymeradwyo'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer ei mabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth, 2019.